



## ARCHWILIO

- Edrych ar wefan CDC
- Cysylltu â ni



## MIREINIO

- Gwerthuso arferion gorau a'ch nodau
- Hyrwyddo'r hyn rydych chi'n ei wneud



## GWERTHUSO

- Rhannu canlyniadau a straeon personol / astudiaethau achos gyda CDC



Learn My Way

A member of the



Online Centres Network

Wales Co-operative Centre  
Canolfan Cydweithredol Cymru



Cymunedau  
**Digidol**  
Cymru  
Hyder Digidol,  
Iechyd a Lles

**Digital**  
Communities  
Wales  
Digital Confidence,  
Health and Well-being

## ASESU

- Gweithio gyda'ch Ymgynghorydd CDC i asesu eich sefyllfa
- Adnabod sgiliau digidol presennol eich staff a'ch tenantiaid



# Sut all technoleg digidol fod o fudd i chi a'ch tenantiaid?

*Cysylltwch â Cymunedau Digidol Cymru heddiw i gael gwybod sut y gallwn ni eich cynorthwyo chi ar eich taith Cynhwysiant Digidol.*

[digitalcommunities@wales.coop](mailto:digitalcommunities@wales.coop)  
**0300 111 5050**

## CYNLLUNIO

- Gweithio gyda'ch Ymgynghorydd CDC i ddatblygu cynllun
- Defnyddio Siarter CDC
- Datblygu Strategaeth Cynhwysiant Digidol



## INTEGREIDDIO

- Codi ymwybyddiaeth o fewn y sefydliad
- Mewnosod cynhwysiad digidol yn y gweithle

## CYFLWYNO

- Cyd-gynhyrchu adnoddau gyda CDC
- Ystyried prosiect pilot



Rhaglen  
Llywodraeth Cymru  
Welsh Government  
Programme

# Cynnig hyfforddiant Cymunedau Digidol Cymru ar gyfer y Sector Tai

Mae'r newid i ddigidol dros y flwyddyn ddiwethaf wedi bod yn sylweddol. A ydych chi'n gobeithio gwella hyder a sgiliau digidol eich staff, yn ogystal â chynnig budd i'ch tenantiaid?

Yn Cymunedau Digidol Cymru (CDC), rydym wedi creu 3 pecyn hyfforddiant pwrpasol ar gyfer y sector tai yng Nghymru – maent ar gael yn rhad ac am ddim, a gallwch chi ddewis yr hyn sydd fwyaf addas i'ch anghenion chi.

## PECYN UN

**Pencampwyr digidol a sgiliau hanfodol 6 wythnos ar gyfer staff (Hyfforddi'r hyfforddwr) (8 awr yn gyfangwbl)**

Bydd model hyfforddi'r hyfforddwr yn darparu hyfforddiant i'ch pencampwyr digidol er mwyn eu galluogi i ddarparu ein cwrs 6-wythnos yn eich sefydliad chi. Bydd yr hyfforddiant yn canolbwyntio ar feithrin sgiliau y gellir eu defnyddio er mwyn helpu eich staff/tenantiaid i ddefnyddio'r rhyngwrwd a chynorthwyo staff i wella eu sgiliau digidol. Fe'i ddarperir dros 8 wythnos am 1 awr yr wythnos, a bydd yn cynnwys:

- Hyfforddiant Pencampwyr Digidol
- Cyfathrebu ar-lein
- Trin gwybodaeth ar-lein
- Prynu a gwerthu ar-lein
- Datrys problemau
- Diogelwch ar-lein
- Cymorth dilynol

## PECYN DAU

**Gweminarau arbennigol (1 awr yr un)**

- Iechyd a lles
- Chwilio am swydd ac arbed arian
- Diogelwch ar-lein a newyddion ffug
- Hel atgofion
- Defnyddio seinyddion deallus clyfar

## PECYN TRI

**Helpu pobl i fynd ar-lein (1 awr)**

Mae'r cwrs hwn ar gyfer unrhyw un sy'n fodlon cynorthwyo rhywun (staff, tenant neu wirfoddolwr) i fynd ar-lein a manteisio i'r eithaf ar fod ar-lein. Bydd yn eich galluogi i:

- ddeall manteision bod ar-lein a bod yn ddefnyddiwr technoleg dyddiol
- deall y rhwystrau sy'n atal pobl rhag mynd ar-lein a sut i'w goresgyn
- defnyddio eich sgiliau digidol eich hun i helpu eraill i gael budd o fod ar-lein"

I gael gwybod mwy, ewch i: <http://www.digitalcommunities.gov.wales/cy/>  
Cysylltwch â: [digitalcommunities@wales.coop](mailto:digitalcommunities@wales.coop) / 0300 111 5050